# TREFFYNNON

**CYNLLUN GWEITHREDU CREU LLEOEDD** (2025-2027)
**Cynllun 18 Prosiect i wella Treffynnon erbyn 2027:** dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint (CSFf), Cyngor Tref Treffynnon a Sefydliadau Partner

1622

**Mae Cynllun Creu Lleoedd Treffynnon, wedi'i hysbysu gan 1622 o gyfraniadau gan bobl leol**

**Mae Creu Lleoedd yn ymwneud â llunio lleoedd o amgylch anghenion a dyheadau'r unigolion sy'n byw, gweithio ac ymweld â nhw. Mae'n broses gydweithredol sy'n uno gwybodaeth, syniadau ac adnoddau lleol i wella gofodau cyhoeddus, atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol, a chefnogi lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.**

Mae Cynllun Gweithredu Creu Lleoedd Treffynnon wedi'i lunio drwy ymgynghoriad helaeth gyda phreswylwyr, busnesau, grwpiau cymunedol a darparwyr gwasanaethau lleol. Mae eu mewnwelediad a'u blaenoriaethau wedi cynorthwyo i lunio gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol Treffynnon.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn (2025-2027) yn nodi fframwaith ar gyfer darpariaeth yn seiliedig ar y 9 blaenoriaeth a nodwyd yng Nghynllun Creu Lleoedd Treffynnon. Mae'n amlinellu 18 prosiect ymarferol y mae partneriaid lleol wedi ymrwymo i'w darparu. Er bod y prosiectau'n dibynnu ar gyllid o amrywiaeth o ffynonellau nad ydynt o reidrwydd wedi'u gwarantu, maent yn adlewyrchu uchelgais cryf ac ar y cyd i greu newid cadarnhaol ar gyfer Treffynnon erbyn 2027.

## Blaenoriaeth 01

### Datblygu Cysylltedd Treffynnon gyda'r ardal gyfagos

Creu ymdeimlad o gyrraedd y dref drwy hyrwyddo a gwella'r cysylltiadau a'r arwyddion presennol

**Grant Gwella Eiddo Canol y Dref**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Grantiau i wella eiddo masnachol a denu buddsoddiad
**Effaith erbyn 2027:** Perchnogion / tenantiaid eiddo yn derbyn cefnogaeth i wella neu ehangu, gan hybu ansawdd gweledol a defnydd o'r dref

**Ailystyried Cysylltiadau Cyrraedd**
**I'w ddarparu gan:** Gwasanaethau Stryd a Chludiant CSFf
**Pwrpas:** Archwilio dewisiadau ar gyfer gwella llwybr cyrraedd canol y dref
**Effaith erbyn 2027:** Gwell eglurder a dealltwriaeth o gyfleoedd cysylltedd er mwyn darparu canol y dref sy'n fwy hygyrch

## Blaenoriaeth 02

### Gwella Apêl Canol Tref Treffynnon

Codi ansawdd yr amgylchedd a chreu gofod mwy croesawgar, gwyrdd a chymdeithasol

**Prosiect Legend on the Bench**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Treffynnon
**Pwrpas:** Gosod dwy o feinciau i hybu iechyd meddwl a lles a chyfeirio pobl at wasanaethau perthnasol
**Effaith erbyn 2027:** Y meinciau wedi'u gosod

**Prosiect Hen Adeilad Banc HSBC**
**I'w ddarparu gan:** Gwasanaethau Stryd a Chludiant, Tai a Chymunedau CSFf
**Pwrpas:** Archwilio caffael ac ailddatblygu hen adeilad banc HSBC yn ganolfan ailddefnyddio / ailgylchu gyda darpariaeth tai newydd *(yn amodol ar gyllid a chontract)*
**lEffaith erbyn 2027:** Adeilad nodedig wedi'i adnewyddu sy'n cefnogi byw'n gynaliadwy, yn darparu cartrefi ac yn cynyddu apêl a bywiogrwydd canol y dref

## Blaenoriaeth 03

### Annog Symudiad i'r Dref

Atgyfnerthu'r ymwybyddiaeth o'r dref, creu lle y mae pobl eisiau ymweld ac aros ynddo

**Prosiect Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (Iechyd a Diogelwch Ieuenctid)**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Treffynnon
**Pwrpas:** Gweithio â'r Grŵp PACT i gefnogi pobl ifanc yn Ysgol Uwchradd Treffynnon sydd wedi dieithrio o'u haddysg a hybu eu hiechyd a'u lles
**Effaith erbyn 2027:** Ennyn cyfranogiad pobl ifanc, eu cyfeirio at wasanaethau a sefydlu rhaglen o weithgareddau

**Rhaglen Ddigwyddiadau Treffynnon**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Treffynnon
**Pwrpas:** Trefnu sawl digwyddiad yn y dref i gynyddu nifer yr ymwelwyr ac ymgysylltiad cymunedol
**Effaith erbyn 2027:** Darparu o leiaf 3 digwyddiad cymunedol llwyddiannus, gyda mwy o gyfranogiad

## Blaenoriaeth 04

### Gwella Bywiogrwydd Canol y Dref

Animeiddio canol y dref i wella gweithgarwch, ffyddlondeb a buddion ar gyfer yr economi leol

**Cynllun Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol Trefi**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Cyllid i gefnogi ac annog digwyddiadau cymunedol sy'n dod â bywiogrwydd, ymwelwyr a gwariant lleol
**Effaith erbyn 2027:** Mwy o weithgareddau / digwyddiadau yng nghanol trefi

## Blaenoriaeth 05

### Cysylltu Dyffryn Maes Glas gyda Chanol y Dref

Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gysylltu canol y dref a Dyffryn Maes Glas a gwella'r hyn maent yn ei gynnig i bobl leol ac ymwelwyr

**Buddsoddiad mewn Mannau Gwyrdd**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Gwella mannau gwyrdd ar gyrion canol y dref gan greu 'coridorau gwyrdd'.
**Effaith erbyn 2027:** Isafswm o ddau brosiect gwella gwyrdd wedi'u cyflawni, cefnogi balchder lleol a gwelliannau amgylcheddol

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government
Trawsnewid Trefi | Transforming Towns
Llywodraeth Cymru | Welsh Government
Cyngor Sir y Fflint TîmAdfywio RegenerationTeam Flintshire County Council
creu lleoedd SIR Y FFLINT
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

## Blaenoriaeth **06**

### Annog Iechyd a Lles yn y Gymuned

Darparu gweithgareddau a chefnogaeth i helpu pobl leol i fyw bywydau egnïol ac iach

**Rhwydwaith Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Heneiddio'n Dda Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint

**Pwrpas:** Cysylltu pobl hŷn gyda rhwydweithiau cyfeillgar i oed a gweithgareddau lleol

**Effaith erbyn 2027:** Mwy o breswylwyr hŷn yn ymgysylltu â mentrau lleol a ffyrdd o fyw iach

**Prosiect Presgripsiynu Cymdeithasol**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (CGLISFf)

**Pwrpas:** Cysylltu pobl gyda chefnogaeth lles lleol

**Effaith erbyn 2027:** Cymunedau wedi'u cysylltu'n well gyda gwasanaethau iechyd a lles

**Parc Chwarae Cynhwysol Treffynnon**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Treffynnon

**Pwrpas:** Sicrhau cyllid ar gyfer darnau ychwanegol o offer chwarae holl-gynhwysol ym Mharc y Fron i rai llai abl eu defnyddio

**Effaith erbyn 2027:** Y darnau ychwanegol o offer wedi'u gosod



## Blaenoriaeth **07**

### Cysylltu Lleoliadau a Gwasanaethau Cymunedol

Datblygu a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau a chefnogaeth yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar unigolion.

**Cefnogaeth i Grwpiau Cymunedol Lleol**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Datblygu Cymunedol Cyngor Sir y Fflint

**Pwrpas:** Darparu cefnogaeth i grwpiau sy'n cynnig rhywle cynnes i bobl leol

**Effaith erbyn 2027:** Grwpiau wedi cael cefnogaeth i ddarparu mannau cynnes

**Mudiad Bwyd Da Sir y Fflint**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Datblygu Cymunedol Cyngor Sir y Fflint

**Pwrpas:** Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion sydd ar gael yn y gymuned i bobl Sir y Fflint

**Effaith erbyn 2027:** Bod pobl Sir y Fflint yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau a'r gefnogaeth



## Blaenoriaeth **08**

### Datblygu Cefnogaeth ar gyfer Entrepreneuriaid, Busnesau a Buddsoddiad

Darparu a chefnogi cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd a sefydledig i ffynnu a datblygu

**Cynllun Cerdyn Post Bargeinion Busnes/ Twristiaeth**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Treffynnon

**Pwrpas:** Denu mwy o bobl i Ganol y Dref gyda chymorth darparwyr llety a busnesau twristiaeth lleol

**Effaith erbyn 2027:** Mwy o bobl yn dod i'r dref a hyrwyddo'r dref a'r busnesau'n ehangach

**Prosiect Cryfder mewn Rhifau ar gyfer Oedolion**

**I'w ddarparu gan:** Gwasanaeth Gwella Ysgolion / Dysgu Cymunedol Oedolion Cyngor Sir y Fflint

**Pwrpas:** Gwella llythrennedd, sgiliau digidol a chyflogaeth

**Effaith erbyn 2027:** Mwy o breswylwyr â sgiliau a hyder



## Blaenoriaeth **09**

### Cydweithio er Budd y Lle a'i Bobl

Darparu, cefnogi a buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion y gymuned leol

**Cydlynu / Rheoli Twristiaeth a Chyrchfan ac Ymgysylltiad Dyffryn Maes Glas**

**I'w ddarparu gan:** Twristiaeth Cyngor Sir y Fflint

**Pwrpas:** Alinio ymdrechion ar draws y partneriaid i hyrwyddo Treffynnon a Dyffryn Maes Glas

**Effaith erbyn 2027:** Cynyddu nifer y llysgenhadon twristiaeth a'r ymagwedd ar y cyd i hyrwyddo a darparu gweithgareddau

**Rhwydwaith Cefnogi Grŵp Cymunedol**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (CGLISFf)

**Pwrpas:** Helpu grwpiau lleol i dderbyn cyllid a chyngor

**Effaith erbyn 2027:** Sefydliadau lleol cryfach, cynaliadwy

**Ffitrwydd, Bwyd a Darllen**

**I'w ddarparu gan:** Gwella

**Pwrpas:** Mynd i'r afael â bod yn llwglyd ac unig dros y gwyliau, ennyn cyfranogiad plant, pobl ifanc a theuluoedd

**Effaith erbyn 2027:** Llai o blant a phobl ifanc yn llwglyd ac unig dros y gwyliau, hybu lles a chyfranogiad



## Allwedd

Cynrychiolir pob **blaenoriaeth** gan liw unigryw.
Efallai y bydd gan brosiectau sawl smotyn lliw sy'n dangos eu bod yn cyfrannu at fwy nag un flaenoriaeth.

**Sut i'w ddarllen:**
Mae prosiect sy'n cynnwys **un smotyn** yn cefnogi'r un flaenoriaeth honno.
Mae prosiect sy'n cynnwys **mwy nag un smotyn** yn cefnogi mwy nag un flaenoriaeth.

- Blaenoriaeth 1
- Blaenoriaeth 2
- Blaenoriaeth 3
- Blaenoriaeth 4
- Blaenoriaeth 5
- Blaenoriaeth 6
- Blaenoriaeth 7
- Blaenoriaeth 8
- Blaenoriaeth 9

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan. This document is also available in English. See English page on our website."

